Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Talycopa
# Heol Hafdy
# Llansamlet
# Abertawe
# SA7 9RZ

## Dyddiad yr arolygiad: Rhagfyr 2013

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.


Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**



**© Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**



**Dyddiad cyhoeddi: 07/02/2014**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Talycopa yn gwasanaethu cymuned Llansamlet ar gyrion Abertawe. Mae mwyafrif o ddisgyblion yn teithio o'r tu allan i'r dalgylch traddodiadol i fynychu'r ysgol.

Ar hyn o bryd, mae gan yr ysgol 215 o ddisgyblion rhwng tair ac 11 oed, gan gynnwys 25 o blant meithrin rhan-amser. Caiff disgyblion eu haddysgu mewn wyth dosbarth oedran unigol ac un dosbarth oedran cymysg.

Mae tua 14% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim ac mae gan ryw 18% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r ddau ffigur hyn islaw'r cyfartaleddau cenedlaethol a lleol. Mae gan ychydig iawn o ddisgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig, yn dod o gefndir ethnig lleiafrifol neu'n cael gofal gan yr awdurdod lleol. Mae rhai ohonynt yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol. Nid oes unrhyw ddisgyblion yn siarad Cymraeg fel mamiaith.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn Nhachwedd 2007. Penodwyd y pennaeth presennol yn Ionawr 2012.

Y gyllideb unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Talycopa yn 2013-2014 yw £3,289. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yn Abertawe yw £15,824 a'r isafswm yw £2,673. Mae Ysgol Gynradd Talycopa yn safle 52 allan o'r 80 ysgol gynradd yn Abertawe o ran y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

**Perfformiad presennol**

Mae perfformiad yr ysgol yn dda oherwydd:

- mae cyrhaeddiad disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 ar y lefel ddisgwyliedig yn golygu bod yr ysgol yn y 50% uchaf o ysgolion tebyg ym mhob un o'r tri phwnc craidd;
- mae safonau mewn llythrennedd, rhifedd a Chymraeg ail iaith yn dda;
- mae bron pob disgybl, gan gynnwys y rhai llai abl a mwy abl, yn gwneud cynnydd da trwy'r ysgol;
- mae ymddygiad disgyblion a'u hagweddau at ddysgu yn dda; ac
- mae ansawdd yr addysgu yn gyson dda gyda rhai nodweddion rhagorol.

**Rhagolygon gwella**

Mae'r rhagolygon gwella yn dda oherwydd:

- mae gan yr ysgol systemau a gweithdrefnau monitro cadarn i arfarnu perfformiad yr ysgol;
- mae rheolaeth yr ysgol yn effeithiol ac yn cael effaith sylweddol ar godi safonau ac ansawdd y ddarpariaeth;
- mae gan y pennaeth ddisgwyliadau uchel a gweledigaeth glir ar gyfer y dyfodol ac fe gaiff gymorth da gan y dirprwy bennaeth a'r uwch dîm arweinyddiaeth;
- mae pob aelod o staff yn rhannu diben ar y cyd ac maent yn gweithio gyda'i gilydd yn dda; ac
- mae'r ysgol yn gweithio gydag ystod o bartneriaid yn effeithiol iawn, ac fe gaiff hyn effaith gadarnhaol ar gynllunio strategol.

## Argymhellion

A1 Gwella cyfraddau presenoldeb

A2 Datblygu'r ddarpariaeth a'r defnydd o'r amgylchedd dysgu yn yr awyr agored yn y Cyfnod Sylfaen

A3 Cryfhau rôl y corff llywodraethol, yn enwedig mewn perthynas â monitro deilliannau a darpariaeth yr ysgol

A4 Mynd i'r afael â'r materion iechyd a diogelwch a godwyd gyda'r corff llywodraethol yn ystod yr arolygiad

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae llawer o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn siarad yn hyderus ac yn gwrando'n dda ar ei gilydd ac ar athrawon. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn defnyddio ystod addas o eirfa wrth gyfleu eu syniadau neu ymateb i gwestiynau. Ym Mlwyddyn 2, er enghraifft, maent yn meddwl am ystod o ansoddeiriau addas i ddisgrifio anifeiliaid. Yng nghyfnod allweddol 2, mae disgyblion yn cymryd rhan yn rheolaidd mewn trafodaethau grŵp pwrpasol, er enghraifft am 'Y Blitz' a materion yn gysylltiedig â'r Ail Ryfel Byd.

Mae disgyblion yn gwneud cynnydd da mewn darllen. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn darllen gyda mwynhad a rhuglder, cywirdeb a dealltwriaeth gynyddol. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn meddu ar wybodaeth dda am seiniau llythrennau ac maent yn defnyddio ystod o strategaethau i ddatrys geiriau anghyfarwydd yn hyderus. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen ystod addas o lyfrau ffuglen a ffeithiol. Maent yn trafod llyfrau ac awduron a'u hoffterau neu'u casbethau ac maent yn meddu ar ddealltwriaeth dda o gymeriadau a rhediad stori. Gall disgyblion hŷn frasddarllen testun i ddeall ei ystyr a chasglu gwybodaeth, a gall y disgyblion mwy abl adnabod casgliad a rhagfarn mewn testun. Mae llawer ohonynt yn defnyddio eu medrau darllen yn dda mewn gwahanol bynciau a gallant ddod o hyd i gyfeirlyfrau, a'u defnyddio, yn effeithiol.

Mae medrau ysgrifennu bron pob un o'r disgyblion yn datblygu'n dda ar draws yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gwneud cynnydd da â'u hysgrifennu cynnar a chreu marciau. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae llawer ohonynt yn ysgrifennu'n llwyddiannus i ddisgrifio digwyddiadau, disgrifiadau syml a storïau gan ddefnyddio atalnodi priodol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn ysgrifennu'n annibynnol, yn hyderus ac yn gywir mewn amrywiaeth o ffurfiau ac mae eu hysgrifennu yn aml yn feddylgar a llawn dychymyg. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ysgrifennu'n dda ar draws y cwricwlwm, er enghraifft mewn hanes a daearyddiaeth. Fodd bynnag, mae cyflwyniad yn anghyson, ac yn aml nid yw'n adlewyrchu pa mor dda yw ansawdd y cynnwys.

Mae bron pob disgybl yn gwneud cynnydd da mewn rhifedd. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, gallant ddarllen ac ysgrifennu rhifau i 100 a chymharu rhifau dau ddigid a'u rhoi yn eu trefn. Gallant ddidoli a chyfateb gwrthrychau ac maent yn dechrau defnyddio unedau mesur safonol. Maent yn casglu a chofnodi data mewn ffyrdd amrywiol mewn gwahanol gyd-destunau.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, gall y rhan fwyaf o ddisgyblion alw i gof dablau lluosi yn y pen a defnyddio dulliau lluosi gwahanol i gael atebion cywir. Mae bron pob un ohonynt yn mynd i'r afael â phroblemau syml yn hyderus a gallant adio a thynnu rhifau dau ddigid gan ddefnyddio strategaethau eraill. Mae'r disgyblion mwy abl yn gweithio'n hyderus gyda degolion, ffracsiynau a chanrannau, yn ogystal â gyda rhifau negyddol a mesurau metrig ac imperial. Mae bron pob disgybl yn

gwybod iaith a phriodweddau siapiau dau a thri dimensiwn cyffredin ac maent yn gyfarwydd ag iaith cylchoedd. Mae tystiolaeth o ddisgyblion yn cymhwyso'u medrau mathemategol yn effeithiol mewn sefyllfaoedd bywyd go iawn, er enghraifft wrth gyfrif elw a cholled a chymharu prisiau.

Mae safonau da mewn Cymraeg ail iaith. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agweddau cadarnhaol iawn at y Gymraeg ac maent yn awyddus i ddefnyddio'r iaith y maent wedi'i dysgu yn yr ystafell ddosbarth. Gwnânt gynnydd priodol wrth iddynt symud trwy'r ysgol ac mae llawer o ddisgyblion hŷn yn ysgrifennu'n dda i'w hoedran a'u gallu, gan ddefnyddio ystod dda o batrymau brawddeg Cymraeg syml at wahanol ddibenion. Fodd bynnag, mae eu gallu i ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r gwersi hyn yn llai datblygedig.

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn 2013 ar ddeilliant disgwyliedig 5, roedd perfformiad disgyblion yn golygu bod yr ysgol yn y 25% isaf o ysgolion tebyg ar gyfer medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu ac yn y 50% uchaf ar gyfer datblygiad mathemategol. Ar y deilliant 6 uwch, roedd cyrhaeddiad disgyblion mwy abl yn golygu ei bod yn y 50% is yn y ddau bwnc. Roedd y canlyniadau hyn ar y ddwy lefel islaw canlyniadau'r flwyddyn flaenorol.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn 2013 ar y lefel 4 ddisgwyliedig, roedd perfformiad disgyblion yn golygu bod yr ysgol yn y 50% uchaf o ysgolion tebyg ym mhob un o'r tri phwnc craidd. Roedd y canlyniadau hyn uwchlaw canlyniadau'r pedair blynedd diwethaf, pan oedd yr ysgol wedi bod yn y 50% is neu'r 25% isaf bron yn gyfan gwbl. Ar y lefel 5 uwch, roedd cyrhaeddiad disgyblion mwy abl yn golygu bod yr ysgol yn y 50% isaf mewn Saesneg a mathemateg, a oedd yn debyg i'r rhan fwyaf o'r blynyddoedd blaenorol. Fodd bynnag, roedd yn y 50% uchaf mewn gwyddoniaeth, ac roedd hyn yn welliant.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da trwy'r ysgol. Fodd bynnag, nid yw bechgyn yn y Cyfnod Sylfaen ac ar y lefel uwch yng nghyfnod allweddol 2 yn gwneud cystal â merched mewn perthynas ag iaith. Nid yw disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yng nghyfnod allweddol 2 yn gwneud cystal â disgyblion eraill chwaith. Mae tystiolaeth arolygu'n dangos bod disgyblion mwy abl yn gwneud cynnydd da ar y cyfan erbyn hyn yn enwedig yng nghyfnod allweddol 2.

**Lles: Digonol**

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth dda o bwysigrwydd bwyta'n iach a chadw'n heini. Mae ganddynt agwedd gadarnhaol at ymarfer corff.

Mae pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn hyderus i ofyn am gymorth os ydynt yn poeni. Maent yn ymateb yn gwrtais i'w gilydd ac i oedolion. Mae eu hymddygiad a'u hagweddau at ddysgu'n dda.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn galw dysgu blaenorol i gof yn dda ac maent yn defnyddio gwybodaeth yn effeithiol i gaffael gwybodaeth a medrau newydd. Maent yn gweithio'n dda fel unigolion, mewn parau ac mewn grwpiau. Yn y Cyfnod Sylfaen, maent yn gwneud penderfyniadau sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu dysgu. Yng

nghyfnod allweddol 2, maent yn defnyddio eu medrau meddwl yn bwrpasol i ddatblygu fel dysgwyr annibynnol.

Er bod lefelau presenoldeb wedi gwella'n ddiweddar, maent wedi bod yn y 50% is neu'r 25% gwaelod mewn blynyddoedd blaenorol o gymharu â lefelau presenoldeb ysgolion tebyg.  Fodd bynnag, mae absenoliaeth parhaus ac absenoldebau anawdurdodedig yn gostwng yn sylweddol.  Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau cymdeithasol a medrau bywyd effeithiol trwy ystod o weithgareddau mewn gwersi, mewn clybiau ar ôl yr ysgol ac yn y gymuned.

Caiff disgyblion gyfleoedd rheolaidd, er enghraifft fel 'Llysgenhadon Hawliau', i fynegi eu barn a gwneud penderfyniadau am fywyd ysgol.  Mae'r cyngor ysgol wedi hen ennill ei blwyf.  Mae gan aelodau ddealltwriaeth dda o'u rolau gwahanol ac maent yn cyfrannu'n effeithiol at fentrau i wella'r ysgol, fel bwyta'n iach a chadw'n heini.

| **Cwestiwn Allweddol 2:  Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys sy'n cydymffurfio â gofynion statudol.  Trwy destunau perthnasol, mae'n cynnig ystod o brofiadau sy'n cyfrannu'n effeithiol at gyflawniad disgyblion trwy adeiladu'n raddol ac yn systematig ar eu dysgu blaenorol.  Mae amser addysgu'n briodol, ond dim ond yn ddiweddar yr addasodd yr ysgol ei hamserlen yng nghyfnod allweddol 2 i sicrhau ei bod yn darparu'r oriau a argymhellir.

Mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau addas o heriol ar gyfer disgyblion sy'n ystyried deilliannau a medrau disgwyliedig.  Maent yn integreiddio darpariaeth ar gyfer llythrennedd a rhifedd yn dda yn eu cynllunio ac yn galluogi disgyblion i ddatblygu eu medrau yn briodol ar draws y cwricwlwm.  Fodd bynnag, mae athrawon yn y Cyfnod Sylfaen yn tueddu i ddibynnu'n ormodol ar daflenni gwaith ac nid ydynt yn cynllunio'n effeithiol ar gyfer defnyddio'r amgylchedd allanol i hyrwyddo dysgu annibynnol.

Mae unigolion a grwpiau o ddisgyblion ag anghenion penodol, gan gynnwys y disgyblion mwy abl a llai abl, yn cael rhaglenni ymyrraeth perthnasol, er enghraifft mewn llythrennedd.  Ar y cyd â'r pwyslais ysgol gyfan ar ddatblygu medrau darllen ac ysgrifennu, mae'r rhaglenni hyn yn cael effaith gadarnhaol ar y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion ar hyn o bryd.

Mae disgyblion yn elwa ar ansawdd ac amrywiaeth y gweithgareddau allgyrsiol.  Mae ymweliadau diddorol ac ymwelwyr o'r gymuned ehangach yn ysgogi a chymell eu dysgu yn llwyddiannus.

Mae'r ysgol yn rhoi cyfleoedd da i ddisgyblion ddatblygu eu medrau Cymraeg, yn ogystal â'u dealltwriaeth o ddiwylliant a threftadaeth Cymru.

Mae'r ysgol yn gweithredu mewn ffordd gynaliadwy ac yn ailgylchu llawer o gynnyrch. Caiff disgyblion gyfleoedd da i ddysgu am eu rôl newydd fel dinasyddion byd-eang ac am fywyd mewn gwledydd eraill.

**Addysgu: Da**

Mae'r addysgu'n gyson dda ar draws yr ysgol, gyda rhai nodweddion rhagorol yng nghyfnod allweddol 2.

Mae pob athro yn paratoi, trefnu a strwythuro gwersi'n dda. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel ac yn defnyddio ystod effeithiol o ddulliau addysgu a dysgu. Maent yn cynnal gwersi bywiog ac yn creu amgylchedd dysgu pwrpasol a chefnogol. Maent yn darparu gweithgareddau heriol ac adnoddau sy'n gweddu'n dda i ddiddordebau a galluoedd disgyblion. Maent yn rheoli amser ac ymddygiad yn dda.

Mae athrawon yn annog disgyblion i feddwl drostynt eu hunain a rhannu eu syniadau. Maent yn eu cynnwys mewn llunio eu meini prawf llwyddo eu hunain yn dda. Maent yn sefydlu perthynas dda gyda nhw, yn eu cymell i lwyddo ac yn monitro eu cynnydd yn effeithiol yn y dosbarth.

Mae'r ysgol yn ymgymryd ag ystod o weithdrefnau asesu perthnasol sy'n bodloni gofynion statudol. Mae ganddi gofnodion systematig a hylaw ar gyfer pob disgybl ac mae wedi datblygu ei system olrhain ei hun, sy'n nodi anghenion disgyblion ac yn gosod targedau priodol yn effeithiol.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn defnyddio ystod o strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn gyson mewn gwersi. Er enghraifft, mae disgyblion yn ymgymryd â thasgau hunanasesu ac asesu cyfoedion yn rheolaidd i'w helpu i ddeall pa mor dda y maent yn cyflawni.

Mae athrawon yn marcio gwaith yn gydwybodol ac yn rhoi sylwadau cadarnhaol a chefnogol. Fodd bynnag, nid yw'r rhain yn helpu disgyblion i ddeall sut i wella'u gwaith yn gyson.

Mae adroddiadau blynyddol ar ddisgyblion yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i rieni am gyflawniadau eu plant ac maent yn cynnwys targedau ar gyfer gwella. Caiff rhieni a disgyblion gyfle i ymateb.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae gan yr ysgol y trefniadau priodol i hyrwyddo ac annog bwyta ac yfed yn iach. Trwy weithgareddau corfforol yn ystod y dydd ac mewn clybiau ar ôl yr ysgol, caiff disgyblion amrywiaeth o gyfleoedd i gynyddu eu lefelau iechyd a ffitrwydd.

Mae disgyblion yn dysgu sut i gadw'n ddiogel ac mae strategaethau effeithiol i annog ymddygiad da. Mae'r ysgol yn rhoi cyfres o fesurau cadarn ar waith i wella presenoldeb, sy'n dechrau gostwng lefelau absenoldeb parhaus ac anawdurdodedig.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn dda trwy ddarparu profiadau addas, fel codi arian ar gyfer plant llai

ffodus ac annog disgyblion i fynegi eu teimladau bob bore. Mae ymwelwyr yn cyfrannu’n fuddiol at y ddarpariaeth hon hefyd.

Mae’r ysgol yn gweithio’n effeithiol gyda nifer o asiantaethau allanol a gwasanaethau cymorth i gynnig arweiniad a gwybodaeth i ddisgyblion a rhieni, yn ôl yr angen. Mae staff yn sicrhau bod y cymorth allanol a gafwyd wedi cael effaith gadarnhaol ar gyflawniadau a lles disgyblion.

Mae trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae lefel y diogeledd ar safle’r ysgol yn dda.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn nodwedd gref yn yr ysgol. Mae athrawon yn nodi anghenion disgyblion yn gynnar ac yn defnyddio gwybodaeth o arsylwadau a phrofion yn ofalus i ddarparu ystod addas o raglenni cymorth. Mae cynlluniau addysg unigol yn cynnwys targedau clir a mesuradwy. Mae systemau effeithlon ar waith i fonitro ac asesu cynnydd disgyblion.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae’r ysgol yn gymuned drefnus a gofalgar gydag ethos cynhwysol a chefnogol sy’n cyfrannu’n sylweddol at ddysgu a lles disgyblion. Mae’n hyrwyddo cyfle cyfartal yn effeithiol ac yn annog pob disgybl i gymryd rhan yn llawn ym mhob gweithgarwch. Mae’n parchu a dathlu amrywiaeth ac yn trefnu darpariaeth briodol ar gyfer unrhyw unigolyn sydd ag anabledd.

Mae’r ysgol yn sicrhau bod staff a disgyblion yn trin ei gilydd yn deg a’u bod yn rhydd oddi wrth unrhyw aflonyddwch, stereoteipio negyddol neu wahaniaethu. Mae disgyblion yn dysgu dangos gofal ac ystyriaeth am bobl eraill, creaduriaid byw a’r amgylchedd.

Caiff yr adeilad a’r tir eu cynnal yn dda ac mae arddangosiadau o ansawdd da yn gwella’r amgylchedd dysgu ac yn dathlu cyflawniadau disgyblion yn briodol. Mae disgyblion wedi elwa’n dda ar addasiadau i’r adeiladau, er enghraifft wrth greu ardal ymchwil. Ar y cyfan, mae digon o adnoddau dysgu ar draws yr ysgol. Rhoddodd y tîm arolygu wybod i’r corff llywodraethol am ychydig o fân broblemau iechyd a diogelwch i fynd i’r afael â nhw.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae rheolwyr yr ysgol yn cael effaith sylweddol ar godi safonau ac ansawdd y ddarpariaeth. Mae’r pennaeth yn arwain yr ysgol yn effeithiol ac mae ganddi ddisgwyliadau uchel a gweledigaeth glir ar gyfer y dyfodol. Mae’r dirprwy bennaeth yn gefnogol iawn ac mae’n ymgymryd â nifer o rolau a mentrau pwysig yn llwyddiannus. Mae’r uwch dîm rheoli yn rhoi cymorth da wrth sefydlu blaenoriaethau’r ysgol a mynd â nhw yn eu blaen hefyd.

Mae pob aelod o staff yn rhannu diben cyffredin ac yn gweithio gyda'i gilydd yn dda. Mae ganddynt rolau a chyfrifoldebau wedi'u diffinio'n glir, ac maent yn ymgymryd â nhw yn gydwybodol ac yn drylwyr. Maent yn cyfarfod yn rheolaidd, yn rhannu arfer dda ac yn cyfrannu'n briodol at gynllunio strategol.

Mae llywodraethwyr yn gefnogol ac yn sicrhau bod yr ysgol yn bodloni'r holl ofynion statudol. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn wybodus ac yn mynychu digwyddiadau hyfforddi. Mae'r cadeirydd a'r is-gadeirydd yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd. Fodd bynnag, megis dechrau datblygu y mae rôl y corff llywodraethol fel ffrind beirniadol, yn enwedig mewn perthynas â monitro deilliannau a darpariaeth yr ysgol.

Mae'r ysgol yn rhoi ystyriaeth dda i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Er enghraifft, mae codi safonau mewn llythrennedd a rhifedd yn ffocws pwysig yn y cynllun datblygu ysgol presennol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae arweinwyr a staff yn meddu ar ddealltwriaeth dda o berfformiad yr ysgol a pha mor dda y mae disgyblion yn gwneud cynnydd o ganlyniad i weithdrefnau monitro a hunanarfarnu trylwyr. Maent yn seilio'u barnau ar ystod o dystiolaeth uniongyrchol a dadansoddiad trylwyr o ddata perfformiad cyfoes, gan gyfeirio'n benodol at effaith y ddarpariaeth ar ddeilliannau disgyblion.

Mae'r ysgol yn gofyn am farn disgyblion a rhieni yn systematig ac mae'n gweithredu yn unol â'u hawgrymiadau, pan fo'n briodol, i roi gwelliannau ar waith. Er enghraifft, mae wedi cyflwyno noson ymgynghori i rieni ac athrawon yn ddiweddar ar ddechrau'r flwyddyn. Mae'r ysgol yn sicrhau bod pob athro'n asesu eu perfformiad eu hunain hefyd er mwyn gwella safonau a darpariaeth.

Mae cynllunio ar gyfer gwelliant yn dda, gan arwain at godi safonau erbyn diwedd cyfnod allweddol 2. Mae'r adroddiad hunanarfarnu manwl yn rhoi darlun clir o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu. Mae'n cynnwys cysylltiadau addas â'r cynllun datblygu ysgol tair blynedd, sy'n amlinellu blaenoriaethau perthnasol a hylaw ar gyfer gwella a deilliannau mesuradwy lle bo'n briodol. Mae'r cynllun yn nodi'r adnoddau angenrheidiol, y graddfeydd amser a'r staff gofynnol yn realistig i sicrhau bod y blaenoriaethau yn gyflawnadwy.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn gweithio gydag ystod o bartneriaid yn effeithiol iawn, sy'n effeithio'n gadarnhaol ar gynllunio strategol. Mae'n cyfathrebu'n rheolaidd gyda rhieni ac yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol iddynt am fywyd ysgol, er enghraifft trwy ei phrosbectws, cylchlythyrau, gwefan a negeseuon testun. Mae rhieni'n gefnogol iawn o ganlyniad.

Mae cysylltiadau da gyda'r cylch chwarae lleol a'r ddwy brif ysgol uwchradd sy'n derbyn y disgyblion. Ceir trefniadau trosglwyddo effeithiol rhwng y gwahanol sectorau. Ceir cydweithio rheolaidd ag ysgolion cynradd lleol hefyd ar gyfer safoni a chymedroli gwaith disgyblion a chydgyfrannu cyllid, er enghraifft i brynu cynllun darllen.

Mae cysylltiadau cadarnhaol gydag eglwys leol a sefydliadau cymunedol eraill ac mae'r ysgol yn croesawu myfyrwyr ar leoliadau hyfforddiant. Yn sgil cyswllt llwyddiannus gyda'r brifysgol leol, mae myfyrwyr yn ymweld â'r ysgol i helpu disgyblion hŷn i wella'u medrau darllen.

Mae gan yr ysgol bartneriaethau cryf gyda busnesau sy'n cyfoethogi dysgu disgyblion trwy ddarparu profiadau bywyd go iawn. Mae banc lleol, er enghraifft, wedi rhoi arian cyfatebol o ddigwyddiadau ac wedi galluogi disgyblion hŷn i ddysgu am fyd cyllid, gan gynnwys morgeisi a chynilion.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae athrawon yn meddu ar gymwysterau a phrofiad addas. Mae gan gynorthwywyr cymorth rolau priodol ac maent yn cyfrannu'n helaeth at ddysgu'r disgyblion, yn enwedig y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae'r ysgol yn cymryd rhan mewn ystod o gymunedau dysgu proffesiynol yn ardal Abertawe. Mae pob aelod o'r staff yn mynychu sesiynau hyfforddi ysgol gyfan a chyrsiau allanol yn rheolaidd, yn unol â'u targedau datblygiad proffesiynol a phersonol a blaenoriaethau'r ysgol.

Mae'r uwch dîm rheoli yn arwain rheoli perfformiad yn briodol ac mae'n sicrhau bod y trefniadau'n bodloni gofynion statudol. Fodd bynnag, nid yw staff cymorth yn cymryd rhan mewn unrhyw system werthuso ffurfiol. Mae'r ysgol yn cyflawni holl ofynion y cytundeb baich gwaith cenedlaethol.

Mae'r ysgol yn rheoli ei hadeiladau, ei hadnoddau a'i chyllideb yn effeithiol ac mae rheolaethau ariannol da ar waith, er bod gwarged mawr ar hyn o bryd. Mae'r pennaeth a'r corff llywodraethol yn seilio'u penderfyniadau ariannol ar anghenion canfyddadwy'r ysgol.

Yn sgil y deilliannau llwyddiannus a gyflawnir gan ddisgyblion ac ansawdd y ddarpariaeth yn gyffredinol, mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn 2013 ar y deilliant 5 disgwyliedig, roedd perfformiad disgyblion uwchlaw cyfartaledd y teulu mewn datblygiad mathemategol a medrau personol a chymdeithasol, ond islaw'r cyfartaledd mewn medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu. O gymharu ag ysgolion tebyg, roedd cyrhaeddiad yn golygu bod yr ysgol yn y 25% isaf ar gyfer medrau iaith, yn y 50% uchaf ar gyfer datblygiad mathemategol ac yn y 25% uchaf ar gyfer medrau personol a chymdeithasol. Ar y deilliant 6 uwch yn 2013, perfformiodd disgyblion mwy abl yn debyg i gyfartaledd y teulu mewn medrau iaith ac uwchlaw'r cyfartaledd mewn datblygiad mathemategol a medrau personol a chymdeithasol. O gymharu ag ysgolion tebyg, roedd perfformiad disgyblion ar ddeilliant 6 yn golygu bod yr ysgol yn y 50% is ym mhob un o'r tri maes dysgu a aseswyd. Roedd cyrhaeddiad ar y ddwy lefel yn well nag yn y flwyddyn flaenorol mewn medrau personol a chymdeithasol yn unig.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn 2013 ar y lefel 4 ddisgwyliedig a'r lefel 5 uwch, roedd perfformiad disgyblion uwchlaw cyfartaledd y teulu ym mhob un o'r tri phwnc craidd. O gymharu ag ysgolion tebyg, roedd cyrhaeddiad ar lefel 4 yn golygu bod yr ysgol yn y 50% uchaf ym mhob un o'r tri phwnc craidd. Roedd y canlyniadau hyn uwchlaw'r rhai yn y pedair blynedd blaenorol, pan oedd yr ysgol wedi bod yn y 50% is neu'r 25% gwaelod bron yn gyfan gwbl. Ar y lefel 5 uwch, roedd perfformiad disgyblion mwy abl yn golygu bod yr ysgol yn y 50% is mewn Saesneg a mathemateg, a oedd yn debyg i'r rhan fwyaf o'r blynyddoedd blaenorol. Fodd bynnag, roedd yn y 50% uchaf mewn gwyddoniaeth, a oedd yn welliant.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da trwy'r ysgol. Fodd bynnag, nid yw bechgyn yn y Cyfnod Sylfaen ac ar y lefel uwch yng nghyfnod allweddol 2 yn gwneud cystal â merched mewn perthynas ag iaith. Hefyd, nid yw disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yng nghyfnod allweddol 2 yn gwneud cystal â disgyblion eraill. Mae tystiolaeth arolygu yn dangos bod disgyblion mwy abl yn gwneud cynnydd da ar y cyfan erbyn hyn, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 2.

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Holiadur Cynradd (Cyffredinol)

mae'n dynodi'r meincnod – dyma yw cyfanswm yr holl ymatebion er Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 100 | 99<br>99%<br>98% | 1<br>1%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 100 | 90<br>90%<br>92% | 10<br>10%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 100 | 96<br>96%<br>96% | 4<br>4%<br>4% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw i'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 100 | 97<br>97%<br>98% | 3<br>3%<br>2% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 100 | 96<br>96%<br>96% | 4<br>4%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 100 | 97<br>97%<br>96% | 3<br>3%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 99 | 98<br>99%<br>99% | 1<br>1%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 100 | 96<br>96%<br>98% | 4<br>4%<br>2% | Rwy'n gwybod beth i'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 100 | 94<br>94%<br>91% | 6<br>6%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 100 | 95<br>95%<br>95% | 5<br>5%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 100 | 76<br>76%<br>78% | 24<br>24%<br>22% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 99 | 87<br>88%<br>84% | 12<br>12%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

## Ymatebion i’r holiadur i rieni

mae’n dynodi’r meincnod – dyma yw cyfanswm yr holl ymatebion er Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 30 | 15 | 14 | 1 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 50% | 47% | 3% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 30 | 21 | 9 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 70% | 30% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 30 | 19 | 9 | 0 | 2 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 63% | 30% | 0% | 7% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 30 | 16 | 14 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 53% | 47% | 0% | 0% | | |
| | | 61% | 34% | 3% | 0% | | |
| Pupils behave well in school. | 30 | 12 | 14 | 0 | 0 | 4 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 40% | 47% | 0% | 0% | | |
| | | 45% | 46% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 29 | 15 | 13 | 0 | 0 | 1 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 52% | 45% | 0% | 0% | | |
| | | 60% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 30 | 20 | 10 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed a gwneud ei orau. |
| | | 67% | 33% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 30 | 13 | 13 | 2 | 0 | 2 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 43% | 43% | 7% | 0% | | |
| | | 47% | 40% | 6% | 1% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 29 | 15 | 12 | 0 | 0 | 2 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 52% | 41% | 0% | 0% | | |
| | | 58% | 34% | 3% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 30 | 20 | 8 | 0 | 0 | 2 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 67% | 27% | 0% | 0% | | |
| | | 60% | 36% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 30 | 16 | 14 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 53% | 47% | 0% | 0% | | |
| | | 66% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs’. | 28 | 12 | 12 | 0 | 0 | 4 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 43% | 43% | 0% | 0% | | |
| | | 50% | 34% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child’s progress. | 30 | 13 | 12 | 5 | 0 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 43% | 40% | 17% | 0% | | |
| | | 49% | 40% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 30 | 13<br>43% | 17<br>57% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 62% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 30 | 10<br>33% | 7<br>23% | 4<br>13% | 0<br>0% | 9 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 44% | 39% | 7% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 30 | 19<br>63% | 7<br>23% | 1<br>3% | 0<br>0% | 3 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 56% | 39% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 28 | 7<br>25% | 7<br>25% | 1<br>4% | 0<br>0% | 13 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 42% | 34% | 4% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 30 | 13<br>43% | 14<br>47% | 1<br>3% | 1<br>3% | 1 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 53% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 30 | 16<br>53% | 12<br>40% | 1<br>3% | 0<br>0% | 1 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 61% | 33% | 3% | 1% | | |

# Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| David Ellis | Arolygydd Cofnodol |
| Michael Thomas | Arolygydd Tîm |
| Rhiannon Boardman | Arolygydd Lleyg |
| Meinir Howells | Arolygydd Cymheiriaid |
| Rebecca Knight | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn

chwarteli wedyn (o’r 25% uchaf i’r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae’n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu’r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu’u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae’r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a’r gyfran sy’n byw yn yr 20% o’r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy’r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy’n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.